

Enghreifftiau o ysgrifennu beirniadol

Paragraff 1

Un system rheoli ymddygiad y gellir ei defnyddio yw'r 'Economi Tocynnau' (Token Economy), sy'n seiliedig ar theorïau Kazdin (1977). Mae'n awgrymu y gall disgyblion ennill tocynnau am arddangos ymddygiad penodol a chadarnhaol – fel peidio ag amharu ar yr athro tra ei fod yn siarad – a gellir cyfnewid y tocynnau hynny am wobrau ystyrlon, er enghraifft 'amser aur' ychwanegol. Mae Kazdin (1977) yn mynd ymhellach i awgrymu, wrth dderbyn y wobr hon, y bydd disgyblion yn cael eu cyflyru i arddangos yr ymddygiadau cadarnhaol hyn. Mae'r dull ymddygiadegol hwn yn seiliedig ar ymchwil Skinner (1963) i Gyflyru Gweithredol (Operant Conditioning), sy'n awgrymu y bydd defnyddio gwobrau cadarnhaol cyson yn cyflyru unigolion i arddangos yr ymddygiad a ddymunir. Y theori hon, sy'n canolbwyntio ar wobrau, oedd sail y system rheoli ymddygiad a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth achos dan sylw. Roedd y dysgwyr yn derbyn sticeri am arddangos ymddygiadau cadarnhaol, megis codi eu dwylo yn y dosbarth. Pan oedd dysgwyr yn casglu 10 sticer, gallai ddewis gwobr o 'flwch gwobrau' yn yr ystafell ddosbarth, a oedd yn cynnwys eitemau yr oedd y dysgwyr yn eu hystyried yn werthfawr.

Paragraff 2

Fodd bynnag, mae cyfyngiadau posibl i'w hystyried. Mae rhai yn ystyried y systemau hyn fel rhywbeth sy'n tynnu sylw disgyblion, gan mai dim ond arddangos yr ymddygiad a ddymunir maent er mwyn cael gwobr. Yn hytrach na defnyddio'r profiad dysgu fel cyfle i ddysgu a datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau, dim ond yr ymdrech sydd ei angen i ennill y wobr y mae myfyrwyr yn ei roi (Evertson et al., 2021; Hine et al., 2018; Maggin et al., 2011; Smith et al., 2022). Mae hyn yn awgrymu bod disgyblion yn cael eu cymell gan ffactorau allanol, heb ddealltwriaeth ddyfnach o'r broses ddysgu, ac yn methu â gweld sut y bydd ymgysylltu â'r dasg o fudd iddynt hwy eu hunain (Capstick, 2005; Kohn, 1993). Felly, efallai nad yw'r hyn a elwir yn fanteision y system ymddygiad hon mor arwyddocaol ag y maent yn ymddangos. Mae ymchwil gan Smith et al. (2022) hefyd yn awgrymu y dylem fod yn ofalus wrth gyffredinoli manteision o'r fath, gan nodi bod rhai myfyrwyr yn elwa mwy nag eraill. Roedd gwobrau'n llawer mwy cymhellol i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) nag i fyfyrwyr heb ADY (Azreena a Hanafi, 2018; Smith et al., 2022). Felly, dylai ysgolion fod yn ofalus wrth gymhwyso systemau rheoli ymddygiad sy'n seiliedig ar wobrau i'r dosbarth cyfan.

Paragraff 3

Bydd nifer o ganfyddiadau pellach yn cael eu trafod yn fwy manwl. Mewn cwestiynau sy'n ymwneud â chymhelliant ac ymgysylltiad (Gweler Atodiad 1 – cwestiynau 1 a 4), nododd y rhan fwyaf o'r dysgwyr eu bod yn 'cytuno' bod siart rheoli ymddygiad wedi cael dylanwad. Roedd hyn hefyd yn amlwg mewn ymchwil gan Azreena a Hanafi (2018), a ganfu fod siart yn seiliedig ar wobrau wedi cael dylanwad cadarnhaol ar ymgysylltiad a chymhelliant disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) i gwblhau gwaith dosbarth. Mae canfyddiadau o'r fath yn awgrymu bod

gan systemau sy'n seiliedig ar wobrau rôl hefyd wrth ddylanwadu ar lefelau ymgysylltiad a chymhelliant o fewn yr ystafell ddosbarth a astudiwyd. Yn ddiddorol, mae hyn yn gwrthgyferbynnu ag ymchwil a grybwyllwyd yn gynharach, a ganfu fod disgyblion yn ystyried bod gwobrau yn cael ychydig iawn o ddylanwad ar eu hymgysylltiad a'u cymhelliant mewn perthynas â gwaith dosbarth (Capstick, 2005; Shreeve et al., 2002). Efallai bod angen ymchwil bellach i ddeall sut a pham y mae hyn yn digwydd, ac i ba feysydd dysgu y gallai ddylanwadu. Dangosodd canlyniadau'r holiadur (Gweler Atodiad 1 – cwestiynau 3 ac 8) hefyd fod y rhan fwyaf o'r dysgwyr yn 'cytuno' â'r datganiad bod siartiau rheoli ymddygiad yn dylanwadu ar arddangos ymddygiad cadarnhaol. Fel y crybwyllwyd uchod, canfu Koelewijn et al. (2018) hefyd fod system wobrwyo wedi arwain at lefelau uwch o wrando ymhlith y cyfranogwyr. Mae hyn yn awgrymu bod gan system rheoli ymddygiad sy'n seiliedig ar wobrau rôl wirioneddol o fewn yr ystafell ddosbarth a astudiwyd. Yn debyg i ymchwil gan Payne (2015), dangosodd dadansoddiad o'r astudiaeth achos hon hefyd fod disgyblion yn teimlo bod y siartiau rheoli ymddygiad yn dylanwadu ar y berthynas oedd ganddynt â'u cyfoedion a'u hathrawon (Gweler Atodiad 1 – cwestiynau 5 a 6). Byddai hwn hefyd wedi bod yn faes diddorol i'w archwilio ymhellach yn y cyfweiliadau a gynlluniwyd, er mwyn deall barn y dysgwyr ynghylch pam a sut y maent yn cael dylanwad. Dangosodd dadansoddiad o'r astudiaeth achos hon hefyd fod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn 'cytuno' â'r datganiad bod siartiau rheoli ymddygiad yn dylanwadu ar eu hunan-barch yn yr ystafell ddosbarth (Gweler Atodiad 1 – cwestiwn 7). Wrth adolygu llenyddiaeth sy'n ymwneud â systemau rheoli ymddygiad sy'n seiliedig ar wobrau, gwelwyd nad oedd llawer o ddeunydd ar y pwnc hwn. Felly, yn y dyfodol, byddai'n fuddiol ymchwilio'n ddyfnach i'r maes hwn a dysgu mwy am ei ddylanwad posibl.

Paragraff 4

Mae llawer o gryfderau i ddefnyddio holiaduron mewn ymchwil. Mae holiaduron yn galluogi ymchwilwyr i gasglu llawer iawn o ddata mewn cyfnod cymharol fyr (Cohen, Manion a Morrison, 2018; Lambert, 2019). Fel y trafodwyd eisoes, mae gan athrawon gyfyngiadau o ran amser, egni ac adnoddau ariannol i'w neilltuo ar gyfer cynnal ymchwil; felly, mae holiaduron yn ffordd effeithlon o gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen. Nododd Lambert (2019) hefyd fod holiaduron yn ddefnyddiol ar gyfer casglu amrywiaeth o feddyliau a safbwyntiau ar bwnc penodol – rhywbeth a allai fod yn gyfyngedig wrth ddefnyddio dulliau ymchwil eraill. Gall holiaduron hefyd fod yn fuddiol wrth gynnal ymchwil gyda phlant. Roedd hwn yn bwynt pwysig i'w ystyried yn yr astudiaeth achos bresennol, a oedd yn canolbwyntio ar ddisgyblion Blwyddyn 5 – disgyblion a allai fod wedi cael trafferth cwblhau offer ymchwil eraill oherwydd eu bod yn rhy anodd neu'n rhy feichus. Mae holiaduron sy'n defnyddio Graddfa Likert – graddfa raddio i asesu canfyddiadau – yn ddefnyddiol, gan fod cyfranogwyr iau yn eu gweld yn syml ac yn hawdd eu deall (Bartlett a Burton, 2009; Wilson, 1996). Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod yr ymchwil yn cael ei gynnal yn y modd mwyaf moesegol bosibl (BERA, 2024).